

Cyngor Celfyddydau Cymru

Ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg

Mehfin 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Ein cydymffuriad â Safonau'r Gymraeg

Dyma fanylu ar sut mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, fel maen nhw'n cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r safonau'n nodi nifer o ffyrdd inni orfod darparu a hybu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a hwyluso ac annog defnydd o'r iaith yng ngweithleoedd ein sefydliadau, a ninnau'n brif gorff datblygu celfyddydau Cymru.

Mae safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol inni wedi'u rhannu'n bedwar categori:

- darparu gwasanaeth
- llunio polisi
- ein gwaith
- cadw cofnodion

Mae'r camau rydym ni wedi'u cymryd i gydymffurfio â gofynion y safonau yn ein Hysbysiad Cydymffurfio isod. Mae rhagor o fanylion hefyd yn ein Polisi Hyrwyddo a Hwyluso'r Gymraeg.

Safonau darparu gwasanaeth

- Rydym ni wedi casglu cronfa ddata ganolog sy'n cofnodi dewis iaith unigolion
- Mae'r holl staff yn gwybod sut i ymateb i ohebiaeth (llythyrau ac e-byst), ateb y ffôn, trefnu a chynnal cyfarfodydd a chyfarch ymwelwyr
- Rydym ni wedi diweddarau'r holl dudalennau gwe a thempledi llythyr i gydymffurfio â'r safonau
- Rydym ni wedi cael system ffôn sy'n galluogi pobl i nodi eu dewis iaith
- Mae'r neges ar ein peiriant ateb yn ddwyieithog
- Mae'r holl aelodau o'r staff yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a, lle mae llinellau uniongyrchol yn cael eu deialu, maen nhw'n trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg os mai Cymraeg yw dewis iaith y galwr a'r atebwr gwreiddiol yn ddi-Gymraeg
- Mae ein holl ddogfennau, cyflwyniadau ac eitemau o newyddion, gan gynnwys cylchlythyrau a hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol rydym ni'n eu

cynhyrchu ar gyfer y cyhoedd a phobl allanol yn ddwyieithog ac mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd

- Rydym ni'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pan fo'n briodol i gyfarfodydd rhwng y staff a phobl allanol
- Mae ein holl arwyddion, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion yn ddwyieithog
- Mae ein gwefan yn ddwyieithog
- Rydym ni'n cyhoeddi pob tendr am gontract yn ddwyieithog ac mae ymatebwyr yn cael eu gwahodd i ymateb yn eu dewis iaith
- Rydym ni'n ymateb i dendrau Cymraeg yn Gymraeg a chynnal unrhyw gyfweiliadau canlynol gyda chyfieithydd ar y pryd lle bo'n briodol

Safonau llunio polisi

- Mae'r holl staff yn ymwybodol o ofynion y safonau llunio polisi
- Rydym ni'n ystyried effaith unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiad i bolisi) ar y Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- O gomisiynu ymchwil i gynorthwyo gyda llunio polisi, byddwn ni'n sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut byddai penderfyniad y polisi yna'n gallu effeithio'n negyddol ar y Gymraeg

Safonau a'n gwaith

- Rydym ni wedi llunio polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith
- Rydym ni wedi cyflwyno gweithdrefn adnoddau dynol lle rydym ni'n gofyn i bob aelod o'r staff a hoffen nhw gael eu contract cyflogaeth yn y Gymraeg
- Mae'r holl staff yn gallu dewis a ydyn nhw am gael yn y Gymraeg unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth unigol, eu habsenoldeb o'r gwaith, gwerthuso eu swydd neu eu hanghenion hyfforddiant
- Rydym ni'n cyhoeddi pob polisi'n ddwyieithog ac ar yr un pryd

- Rydym ni wedi diwygio disgrifiadau swydd i sicrhau bod o leiaf un siaradwr Cymraeg yn y fîm adnoddau dynol
- Rydym ni wedi rhoi gwybod i'r staff fod ganddyn nhw'r hawl i gwyno yn y Gymraeg a'r hawl i ymateb i gŵyn amdany'n nhw yn y Gymraeg
- Rydym ni wedi diweddarau ein polisiau i adlewyrchu'r safonau
- Mae ein meddalwedd cyfrifiadurol, gan gynnwys meddalwedd adnoddau dynol, yn cynnig dewisiadau Cymraeg i'r staff, lle mae'r fath feddalwedd ar gael
- Mae'r staff yn asesu eu sgiliau Cymraeg bob blwyddyn drwy hunanasesiad
- Rydym ni wedi cynnig cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i staff gael hyfforddiant Cymraeg
- Mae holl aelodau newydd o'r staff, yn rhan o'u cyfnod ymsefydlu, yn cael gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Rydym ni wedi darparu geiriad a logo priodol i lofnod e-bost y staff i nodi a ydyn nhw'n rhugl yn y Gymraeg neu'n dysgu
- Rydym ni'n asesu sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi gwag neu newydd fesul achos
- Rydym ni'n hysbysebu swyddi'n ddwyieithog gan nodi'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol
- Mae ein hysbysebion yn nodi ein bod ni'n croesawu ceisiadau yn y Gymraeg
- Rydym ni'n cyhoeddi yn ddwyieithog bob gwybodaeth recriwtio
- Ar ein ffurflenni cais mae lle i bobl nodi a ydyn nhw am gael cyfweiliad Cymraeg a bydd cyfieithu ar y pryd yno os yw'n briodol
- Mae ein holl arwyddion yn y Gymraeg

Cadw cofnodion

- Rydym ni'n cadw cofnod o'r cwynion sy'n dod i law o ran ein cydymffurfiad â safonau'r Gymraeg

- Rydym ni'n cadw cofnod o'r camau rydym ni'n eu cymryd i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi
- Rydym ni'n cadw cofnod o sgiliau Cymraeg y staff a'r hunanasesiadau
- Rydym ni'n cadw cofnod o'n hasesiadau o sgiliau Cymraeg unrhyw swyddi newydd neu wag
- Rydym ni'n cadw cofnod o sut rydym ni'n categorio pob swydd wag neu newydd o ran y sgiliau Cymraeg angenrheidiol